

Comisiynydd Plant Cymru

Amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer 2016 - 2017



Cynnwys

Cyflwyniad	3
Crynodeb	3
Pwerau'r Comisiynydd	4
Strwythur	4
Trefniadau Llywodraethu	5
Cynllun Tair Blynedd y Comisiynydd 2016-19	6
Cyllideb Ariannol	7
Yr Effaith ar y Cronfeydd wrth gefn	8

Cyflwyniad

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i benodi comisiynydd plant, yn 2001. Mae pob un o'r tri a fu'n cyflawni'r swydd ers hynny wedi cael eu dethol gan Brif Weinidog Cymru, gyda mewnbwn gan blant a phobl ifanc. Prif nod y Comisiynydd yw hybu hawliau a lles plant yng Nghymru.

Cychwynnodd yr Athro Sally Holland yn y swydd ar 20 Ebrill 2015, am gyfnod o saith mlynedd.

Cyflwynir yr amcangyfrif hwn o'r gyllideb i Weinidogion Cymru fel sy'n ofynnol o dan baragraff 6(2) o Atodlen 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'n cyflwyno'r adnoddau sy'n ofynnol i alluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Crynodeb

Y gyllideb sy'n ofynnol ar gyfer 2016-17 yw £1,631,061, fel yr amlinellir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Amcangyfrif a lefel cyllideb ddangosol ar gyfer y tair blwyddyn ariannol nesaf:

	Amcangyfrif 2016-17	Dangosol 2017-18	Dangosol 2018-19
	(£)	(£)	(£)
Cyflogau	1,085,616	1,033,039	1,057,225
Safleoedd	93,829	95,099	95,099
Costau Swyddfa	115,300	115,300	115,300
Hyfforddi a recriwtio	31,700	31,700	31,700
Teithio a chynhaleth	32,800	32,800	32,800
Ffi archwilio allanol	18,853	18,853	18,853
Ffi archwilio mewnol	10,500	10,500	10,500
Cyfathrebu	55,900	55,900	55,900
TGCh	22,500	22,500	22,500
Costau prosiect	94,850	84,850	84,850
Cyfalaf a Dibrisiad	10,000	10,000	10,000
Ailstrwythuro	59,213	8,529	8,529
Cyfanswm Gwariant	1,631,061	1,519,070	1,543,256
Cyllido gan Lywodraeth Cymru	1,543,500	1,543,500	1,543,500
Gor / (Tan) Wariant	87,561	(24,430)	(244)

Pwerau'r Comisiynydd

Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru o dan ran 5 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a sefydlwyd pwerau pellach o dan Reoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001.

Mae popeth sydd wedi'i nodi yn y rheoliadau hyn wedi'i lunio i sicrhau bod gan y Comisiynydd yr holl offer angenrheidiol i fod yn bencampwr i blant a phobl ifanc, ac i'w helpu i gyflawni ei rôl fel eiriolydd systematig (mae hynny'n golygu ei bod hi'n codi llais ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru, ac yn gwneud newidiadau er mwyn i blant Cymru gael dyfodol mwy disglair a diogel). Nid yw'r holl offer sydd ganddi'n cael eu defnyddio bob dydd, ond maen nhw'n cynnwys y canlynol:

1. Adolygu a monitro trefniadau: Mae hynny'n golygu ei bod hi'n gallu edrych ar sut mae sefydliadau'n delio gyda chwynion, eiriolaeth, cyngor a datgelu camarfer, er mwyn gwneud yn siŵr bod y trefniadau hyn yn helpu i gadw plant yn ddiogel rhag niwed, ac yn rhoi gwybod iddyn nhw am eu hawliau.
2. Adolygu sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a phersonau eraill yn ymarfer eu swyddogaethau: Mae hynny'n golygu ei bod hi'n gallu edrych ar y pethau mae'r Cynulliad yn eu gwneud, neu'r pethau maen nhw'n mynd i'w gwneud, sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.
3. Archwiliad: Archwilio achosion plant sy'n derbyn gwasanaethau gan sefydliadau yng Nghymru, neu sydd wedi'u derbyn.
4. Pwerau ychwanegol i ystyried a chyflwyno sylwadau: Mae gan y Comisiynydd bŵer ychwanegol i edrych ar unrhyw beth mae hi'n teimlo sy'n effeithio ar hawliau plant yng Nghymru, a dweud wrth y Cynulliad amdano.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru sydd o dan 18 oed, neu 25 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal. Mae hi hefyd yn gallu edrych ar bethau a ddigwyddodd i oedolion pan oedden nhw'n blant os bydd hi'n teimlo bod hynny'n cael unrhyw effaith ar blant heddiw.

Mae'r Comisiynydd yn cael ei hariannu gan Weinidogion Cymru, ond mae'n weithredol annibynnol arnyn nhw, ac mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am sut mae'n defnyddio ei hadnoddau.

Strwythur

Wrth gychwyn yn ei rôl, ym mis Ebrill 2015, roedd strwythur staffio'r Comisiynydd wedi'i seilio ar adolygiad sefydliadol a gwblhawyd yn 2010. Nifer y staff yn y Swyddfa (heb gynnwys y Comisiynydd) o ran swyddi parhaol oedd 25.1 cyfwerth amser llawn, oedd yn cynnwys 26 o bobl, fel yr adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15 y Comisiynydd. Yn sgîl datblygiadau pellach, yn fewnol ac yn allanol, gwelwyd bod angen peth ad-drefnu pellach ar strwythur y swyddfa, er mwyn ymateb i'r gofynion parhaus mae'r swyddfa'n eu hwynebu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Newidiadau cymdeithasol a llywodraethol ers i'r swyddfa gael ei sefydlu yn 2000, a'r ad-drefnu diwethaf yn 2008, sy'n galw am newid ymateb (gan gynnwys y cynnydd cyflym yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol, esblygiad parhaus y setliad datganoli, a datblygiad cyfatebol cymdeithas sifil).
- Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfeiriad y swyddfa yn y dyfodol o fis Ebrill tan fis Hydref 2015: Beth Nesa/What Next.
- Adolygiad Shooter yn 2014, a gyflwynodd argymhellion ynghylch y strwythurau staffio.

Wrth gynnal yr adolygiad mae paramedrau'r ad-drefnu arfaethedig a'r costau diswyddo tebygol wedi newid yn sgîl y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015 y bydd gostyngiad o 10% yn y cyllid ar gyfer 2016-17. Mae hyn wedi golygu bod proses ailstrwythuro a gychwynnwyd ym mis Tachwedd 2015 wedi cael ei hestyn dros gyfnod hwy i gyflawni'r arbedion gofynnol.

Bydd y gwaith ailstrwythuro diwygiedig yn y swyddfa yn cael ei gwblhau yn chwarter cyntaf 2016-17 a bydd y rhanddeiliaid yn cael gwybod pan fydd wedi'i gwblhau. Rhagwelir y bydd y costau staffio (ac eithrio cyfnodau mamolaeth yn 2016-17) yn gostwng £155,000, a chyflawnwyd arbedion hefyd o ran costau swyddfa.

Trefniadau llywodraethu

Nid oes corff llywodraethu gan swyddfa'r Comisiynydd, yn hytrach, mae'n Gorfforaeth Un Person. Mae'r annibyniaeth hon yn hanfodol ar gyfer y rôl galw i gyfrif a gyflawnir gan y swyddfa yng nghyswllt hawliau dynol plant a phobl ifanc.

Yn sgîl y pwyslais ar rôl y Comisiynydd fel unigolyn, mae'r strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau yn wahanol i eiddo cyrff eraill sector cyhoeddus mewn rhai ffyrdd. Fodd bynnag, gan ei bod yn rôl gyhoeddus sy'n defnyddio arian cyhoeddus, mae angen i'r atebolrwydd a'r penderfyniadau a wneir fod yn drylwyr ac yn dryloyw.

Mewn egwyddor, dylid gwneud penderfyniadau ar y lefel isaf sy'n bosib, fodd bynnag, rhaid sicrhau bod perthynas bob amser rhwng awdurdod a chyfrifoldeb. Dylai fod gan y rhai sy'n gyfrifol am feysydd gwaith penodol awdurdod sydd wedi ei ddiffinio'n glir i wneud penderfyniadau, a llwybr clir a mesur o atebolrwydd. Mae rheolwyr yn gyffredinol gyfrifol am eu meysydd gwaith a goruchwylio eu timau o staff. Mae'r dirprwyo yn gweithredu ar sail dirprwyo i swyddogion penodol, yn hytrach nag i grwpiau neu bwyllgorau. Mae'n hanfodol felly bod cwmpas a therfynau'r dirprwyo hwnnw yn cael eu nodi'n glir. Pennir hyn fel rhan o'r Polisi Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau ac oddi mewn i'r gweithdrefnau ariannol.

Dirprwyr rheolaeth strategol a gweithredol y swyddfa i'r Tîm Rheoli. Y Tîm Rheoli sy'n gyfrifol am gyflawni nodau ac amcanion y swyddfa. Wrth geisio cyflawni nodau ac amcanion y swyddfa, rhaid i'r gweithwyr lynu at bolisiau a gweithdrefnau'r swyddfa a chadw oddi mewn i'r cyllidebau a ddynodwyd.

Mae'r Tîm Rheoli yn cwrdd â'r Comisiynydd yn fisol. Ei brif ddiben yw darparu arweinyddiaeth, gweledigaeth, pwrpas ac atebolrwydd wrth ddatblygu a chyflawni prif nodau'r swyddfa. Adolygir y Cylch Gorchwyl bob chwe mis, a rhoddir copi ar y fewnwyd.

Mae gan y Comisiynydd Bwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i ddarparu cyngor a chefnogaeth yng nghyswllt trefniadau llywodraethu. Mae'n cyflawni rôl hanfodol o ran galw'r Comisiynydd a'r swyddfa i gyfrif. Mae'r aelodau'n gofyn cwestiynau i ni, er mwyn sicrhau ein bod ni'n cyflawni'r pethau rydym wedi addo eu gwneud; ein bod yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth a sefydlodd y corff; ac yn sicrhau bod y Comisiynydd, fel Swyddog Cyfrifyddu, yn dilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau a bennwyd gan Drysorlys EM a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae'n cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys uwch swyddogion y swyddfa ac aelodau anweithredol. Dyma'r aelodau cyfredol:

- Wyn Mears, y Cadeirydd, Ymgynghorydd Busnes a Chyn Gyfarwyddwr Cymdeithas y Cyfrifyddion Siartredig Ardystiedig.
- Ian Summers - Cyn Bartner yn Swyddfa Archwilio Cymru.
- Greta Thomas, Cyn Gyfarwyddwr i'r NSPCC yng Nghymru, (aelod tan fis Medi 2015).
- Dr Iolo Doull - Pediatregydd Resbiradol Ymgynghorol yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd.
- Aine Denvir - Cyfreithiwr Gofal Plant.

Yn ystod hanner cyntaf 2016-17 bydd y Comisiynydd yn sefydlu Panel Ymgynghorol o Blant a Phobl Ifanc a Phanel Ymgynghorol i'r Comisiynydd, a fydd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg, aelodau o'r panel plant a phobl ifanc, ac oedolion ychwanegol sy'n meddu ar arbenigedd polisi ac ymarfer ym maes hawliau plant. Penodir trwy geisiadau agored.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn ffurfio is-bwyllgor i Banel Ymgynghorol y Comisiynydd.

Cynllun Tair Blynedd y Comisiynydd 2016-19

Ar ei diwrnod cyntaf yn y swydd, ymrwymodd y Comisiynydd i gynnal digwyddiad ymgynghori mawr gyda phlant a phobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu ac yn gweithio drostynt, er mwyn helpu i lywio ei chynllun strategol tair blynedd. Bu 7000 o blant a phobl ifanc 3-18 oed sy'n byw mewn amrywiaeth eang o amgylchiadau ledled Cymru, a mwy na 1000 o oedolion, yn rhan o *Beth Nesa // What Next*. Cyhoeddwyd canlyniadau *Beth Nesa / What Next*, ynghyd â'i chynllun strategol tair blynedd cyntaf, ym mis Chwefror 2016.

Yn ei chynllun ar gyfer 2016-19, nododd y Comisiynydd:

“Fy uchelgais yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.”

Nododd y Comisiynydd hefyd rai dyheadau penodol:

“ Erbyn 2019 rwy'n gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gyflawni'r gwelliannau canlynol i blant:

- Bydd plant a phobl ifanc yn gallu cyrchu'r gwasanaethau iechyd meddwl sydd eu hangen arnyn nhw, a hynny mewn modd amserol. Bydd rhaglenni cryfach i hybu iechyd a llesiant emosiynol yn ein gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, ein hysgolion a'n gwasanaethau ieuentid
- Bydd gennym ni well dealltwriaeth o brofiadau cyfoes plant o fwlio, a bydd mwy o ysgolion yn atal ac yn taclo bwlio'n effeithiol
- Bydd gwell mynediad at weithgareddau chwarae, diwylliant a hamdden gan blant sy'n fwyaf tebygol o golli cyfle i'w cael, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tlodi a phlant anabl.
- Bydd y rhai sy'n gadael gofal yn cael gwell mynediad at opsiynau tai diogel a sicr, ac yn cael cynnig swydd, addysg, neu le mewn hyfforddiant
- Bydd gwell pontio i'r gwasanaethau oedolion ar gyfer pob person ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd a chymdeithasol barhaus
- Bydd plant yn cael yr un amddiffyniad cyfreithiol ag oedolion rhag ymosodiad corfforol
- Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn well mewn gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys fy sefydliad fy hun

Bydda i'n gweithio i hyrwyddo'r gwelliannau hyn trwy weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i'w hannog i ymrwymo i CCUHP a newid sut maen nhw'n cynllunio ac yn darparu eu gwasanaethau o ganlyniad. Bydda i'n ceisio dylanwadu ar bolisi a deddfwriaeth y Llywodraeth a'u ffurfio, fel eu bod yn gweithio o blaid hawliau plant. Bydda i'n helpu plant a phobl ifanc unigol y mae eu hawliau wedi cael eu torri, a bydda i'n monitro goblygiadau systemig achosion o'r fath, gan herio gwasanaethau i wneud yn well yn y dyfodol. A bydda i'n gwneud y pethau hyn drwy wrando ar blant a phobl ifanc a chydweithio â nhw fel dinasyddion gweithredol sydd â chyfraniad pwysig i'w wneud i'w hysgolion, eu cymunedau a'u cenedl."

Mae'r Comisiynydd wedi llunio nodau a chynlluniau manwl ar gyfer 2016-17, a thrwyddynt bydd hi'n ceisio hyrwyddo'r dyheadau a nodwyd uchod a gweithio gydag eraill er mwyn eu cyflawni.

Cyllideb Ariannol

Paratowyd yr amcangyfrif gan gydnabod y pwysau ariannol y mae'r sector cyhoeddus yn ei wynebu yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r Comisiynydd a'i Thîm Rheoli wedi nodi meysydd ar gyfer arbedion, a nifer o gamau gweithredu er mwyn lleihau gwariant ymhellach. Ymhlith y rhain mae:

Osgoi dyblygu gyda sefydliadau eraill

Mae'r Comisiynydd wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol er mwyn osgoi dyblygu gwaith. Mae gan y Comisiynydd nifer o Femoranda Dealltwriaeth gweithredol gyda chyrrff sy'n cynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Lluniwyd y memoranda i gynyddu lefel y cydweithredu, y gweithio ar y cyd a'r cyfnewid gwybodaeth lle bo hynny'n briodol.

Yn 2014-15 penderfynodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad ystyried cyfrifon detholiad o sefydliadau a ariannir gan drethdalwyr, gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru. Eleni, felly, mae'r Comisiynydd hefyd wedi rhoi sylw i'r argymhellion perthnasol a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2015, ac mae gweithredu ar y cyd mewn llaw gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Comisiynydd Pobl Hŷn a Chomisiynydd y Gymraeg i gymryd camau pellach tuag atynt.

Bu'r Comisiynydd yn croesawu ac yn cydweithio'n weithredol ag adolygiad o wasanaethau cymorth swyddfeydd y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn, a Chomisiynydd newydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Busnes, Sgiliau a Chyllid o fis Medi 2015 hyd fis Mawrth 2016. Nododd yr adolygiad hwn gan swyddogion y Llywodraeth fod yr arbedion ariannol posibl yn gyfyngedig, ond arweiniodd y prosiect at rai datblygiadau newydd oedd yn hybu gwaith effeithlon ac effeithiol trwy gydweithio rhwng y swyddfeydd hyn, yn arbennig ym meysydd Adnoddau Dynol, hyfforddi a datblygu, a rhannu arbenigedd a sgiliau. Cyflwynwyd adroddiad yr adolygiad i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ym mis Chwefror 2016, a chroesawodd hithau'r canfyddiadau.

Paratoi adroddiadau a monitro gwariant

Mae trefniadau llywodraethu'r Comisiynydd hefyd yn sicrhau bod gwariant yn cael ei fonitro'n fanwl, gan fod y gyllideb yn cael ei monitro ac yn destun adroddiadau rheolaidd gan Dîm Rheoli'r Comisiynydd yn eu cyfarfodydd misol.

Mae swyddfa'r Comisiynydd hefyd yn destun craffu gan archwilwyr mewnol ac allanol er mwyn sicrhau bod y swyddfa'n cydymffurfio â gofynion gwerth am arian ac arfer gorau. Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg annibynnol y Comisiynydd hefyd yn monitro perfformiad swyddfa'r Comisiynydd trwy gyfarfodydd rheolaidd.

Yr Effaith ar Gronfeydd wrth gefn

Adroddodd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15 mai £408,000 oedd lefel cronfeydd wrth gefn y Comisiynydd. Mae Tabl 2 yn amcangyfrif effaith y symudiad rhwng gweddill 2014-15 a'r gyllideb/ariannu ar gyfer y tair blynedd nesaf ar fy nghronfeydd wrth gefn. Fel y nodir yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2015-16, mae'r gronfa gyffredinol wedi lleihau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn sgîl ailstrwythuro a fydd yn sicrhau cynaliadwyedd ac arbedion tymor hir a gweithredu meddalwedd System Gwybodaeth am Weithgaredd, a fydd yn gwella effeithlonrwydd, cyfathrebu o fewn y swyddfa ac atebolrwydd. Cymeradwywyd polisi

newydd ar gyfer y cronfeydd wrth gefn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ym mis Hydref 2015.

Tabl 2: Yr Effaith ar Gronfeydd ariannol wrth gefn

	2015-16 £'000	2016-17 £'000	2017-18 £'000	2018-19 £'000
Cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r cyfnod	408,000	185,729	98,168	122,598
Gor / (Tan) Wariant	222,271	87,561	(24,430)	(244)
Cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y cyfnod	185,729	98,168	122,598	122,842